

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
Answers to Questions not reached in Plenary
28/02/2007

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys
Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
Questions to the Finance Minister

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Questions to the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
Questions to the Finance Minister

Prif Lwyddiannau
Principle Achievements

Q11 Sandy Mewies: Will the Minister outline the Welsh Assembly Government's principle achievements in the field of local government in Flintshire? OAQ1128(LGP)

C11 Sandy Mewies: A wnaiff y Gweinidog amlinellu prif lwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes llywodraeth leol yn sir y Fflint? OAQ1128(LGP)

The Finance Minister (Sue Essex): I concluded a policy agreement with Flintshire County Council in January 2005 setting out the agreed improvements that the council will deliver by 2007. In 2005-06 and 2006-07, Flintshire demonstrated performance of a satisfactory level to receive their performance incentive grant of £1,468,919 and £1,464,862 respectively.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Fe wnes gwblhau cytundeb polisi gyda Chyngor Sir y Fflint yn Ionawr 2005 yn amlinellu'r gwelliannau a gytunwyd y bydd y cyngor yn eu darparu erbyn 2007. Yn 2005-06 a 2006-07, dangosodd sir y Fflint berfformiad boddhaol i dderbyn eu grant cymell perfformiad o £1,468,919 a £1,464,862 yn ôl eu trefn.

Blaenoriaethau ar gyfer y Portffolio
Priorities for the Portfolio

Q12 Val Lloyd: Will the Minister make a statement on her priorities for the local government portfolio during this term? OAQ1102(LGP)

C12 Val Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer y portffolio llywodraeth leol yn ystod y tymor hwn? OAQ1102(LGP)

Sue Essex: My main priority for local government during the remainder of this term is the launch of the local government policy statement on 8 March at the local government partnership council. The policy statement will outline the way forward for local

Sue Essex: Fy mhrif flaenoriaeth ar gyfer llywodraeth leol yn ystod gweddill y tymor hwn yw lansio'r datganiad polisi llywodraeth leol ar 8 Mawrth yn y cyngor partneriaeth llywodraeth leol. Bydd y datganiad polisi yn amlinellu'r ffordd ymlaen ar gyfer

government in line with the Government's response to the Beecham review.

llywodraeth leol yn unol âg ymateb y Llywodraeth i adolygiad Beecham.

Y Grant Cynnal Refeniw The Revenue Support Grant

Q13 Jenny Randerson: Will the Minister make a statement on the changes to the revenue support grant since 2003? OAQ1106(LGP)

C13 Jenny Randerson: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y newidiadau i'r grant cynnal refeniw er 2003? OAQ1106(LGP)

Sue Essex: Funding for local government provided by the Welsh Assembly Government has increased by 16 per cent since 2003-04. This shows a real-terms increase of over 8 per cent.

Sue Essex: Mae arian a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i lywodraeth leol wedi cynyddu 16 y cant ers 2003-04. Dengys hyn gynnydd mewn termau gwirioneddol o dros 8 y cant.

Adroddiad Beecham The Beecham Report

C14 Owen John Thomas: Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i gefnogi casgliad adroddiad Beecham y dylai Cymru anelu at fod yn enghraifft ryngwladol o sut y mae gwledydd bychain yn darparu gwasanaethau cyhoeddus? OAQ1123(LGP)

Q14 Owen John Thomas: What steps is the Government taking to support the conclusion of the Beecham report that Wales should aim to be an international exemplar of how small countries deliver public services? OAQ1123(LGP)

Sue Essex: 'Delivering Beyond Boundaries' sets out the actions that we intend to take, in the light of the Beecham review, to accelerate progress towards our goal of transforming the way in which public services are delivered. We are discussing with Organisation for Economic Co-operation and Development and other experts how we might benchmark performance in Wales with comparable small countries and regions.

Sue Essex: Mae 'Cyflawni ar Draws Ffiniau' yn amlinellu'r camau y bwriadwn eu cymryd, yng ngoleuni adolygiad Beecham, i gyflymu'r cynnydd tuag at ein nod o drawsnewid y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu. Yr ydym yn trafod gyda'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac arbenigwyr eraill sut y gallwn feincnodi perfformiad yng Nghymru gyda gwledydd bach a rhanbarthau tebyg.

Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus Public Service Improvement

Q15 Karen Sinclair: What is the Welsh Assembly Government doing to promote public service improvement in local authorities in Wales? OAQ1137(LGP)

C15 Karen Sinclair: Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo gwella gwasanaethau cyhoeddus mewn awdurdodau lleol yng Nghymru? OAQ1137(LGP)

Sue Essex: The Wales programme for improvement provides a flexible, yet robust, policy framework for local government to secure continuous improvement in the services that they provide. I have also provided nearly £4 million this year to support improvement, through local capacity

Sue Essex: Mae rhaglen Cymru ar gyfer gwella yn darparu fframwaith polisi hyblyg ond cadarn i lywodraeth leol i sicrhau gwelliant parhaus yn y gwasanaethau a ddarparant. Yr wyf hefyd wedi darparu bron i £4 miliwn eleni i gefnogi gwelliant, drwy astudiaethau meithrin gallu lleol a gwelliant

building and national improvement studies conducted by the Wales Audit Office.

enedlaethol a wnaethpwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Questions to the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills

Cludiant Ysgol School Transport

Q12 Janet Davies: Will the Minister make a statement on school transport in South Wales West? OAQ1238(ELL)

C12 Janet Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gludiant ysgol yng Ngorllewin De Cymru? OAQ1238(ELL)

The Minister for Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Davidson): The Education Act 1996 as amended places responsibility on local education authorities to provide free home-to-school transport for children of compulsory school age who live over statutory walking distances. Authorities may decide what post-16 transport arrangements to offer; there is no entitlement to free transport for these learners.

Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson): Mae'r Ddeddf Addysg 1996 fel y'i diwygiwyd yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau addysg lleol i roi cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim i blant o oedran ysgol gorfodol sy'n byw yn bellach na'r pellter cerdded statudol. Gall awdurdodau benderfynu pa drefniadau cludiant dros-16 oed i'w cynnig; nid oes hawl i gludiant am ddim i'r dysgwyr hyn.

Dyfodol Ysgolion Bach The Future of Small Schools

Q13 Mick Bates: What steps is the Minister taking to safeguard the future of small schools in Montgomeryshire? OAQ1269(ELL)

C13 Mick Bates: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ddiogelu dyfodol ysgolion bach yn Sir Drefaldwyn? OAQ1269(ELL)

Jane Davidson: It is an obligation for Powys to make appropriate school provision in the light of pupil numbers and the condition of school buildings. Powys has recently been considering its current distribution of schools in order to provide for the best quality of provision for the future. I welcome this approach.

Jane Davidson: Mae'n rhaid i Bowys roi darpariaeth ysgolion priodol yng ngoleuni niferoedd disgyblion a chyflwr adeiladau ysgolion. Mae Powys yn ddiweddar wedi bod yn ystyried ei ddsbarthiad ysgolion cyfredol er mwyn darparu'r ansawdd gorau o ran addysg ar gyfer y dyfodol. Yr wyf yn croesawu'r dull gweithredu hwn.

Llwyddiannau Achievements

Q14 Rosemary Butler: Will the Minister outline the Welsh Assembly Government's achievements in the field of education and lifelong learning in Newport? OAQ1257(ELL)

C14 Rosemary Butler: A wnaiff y Gweinidog amlinellu llwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes addysg a dysgu gydol oes yng Nghasnewydd? OAQ1257(ELL)

Jane Davidson: Newport is benefiting from the implementation of our policies in education, lifelong learning and skills. We are investing across all areas to provide the best possible environment to encourage

Jane Davidson: Mae Casnewydd yn elwa o weithredu ein polisiau addysg, dysgu gydol oes a sgiliau. Yr ydym yn buddsoddi drwy bob maes er mwyn darparu'r amgylchedd gorau posibl i annog dysgu ar bob cam ym

learning at all stages in people's lives, in particular all secondary schools in Newport will be participating in the Welsh baccalaureate from this September.

mywyd pobl, yn arbennig bydd pob ysgol uwchradd yng Nghasnewydd yn cymryd rhan ym magloriaeth Cymru o fis Medi eleni ymlaen.

Addysg Cyfrwng Cymraeg Welsh Medium Education

Q15 Leanne Wood: What recent discussions has the Minister had regarding Welsh-medium education in South Wales Central? OAQ1243(ELL)

C15 Leanne Wood: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghanol De Cymru? OAQ1243(ELL)

Jane Davidson: I met Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg on 29 January and discussed a range of issues in relation to Welsh and Welsh-medium education but I have had no discussions about the specific area of South Wales Central. All authorities in that area maintain both primary and secondary Welsh-medium schools.

Jane Davidson: Fe wnes i gyfarfod Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg ar 29 Ionawr a thrafod amrywiaeth o faterion mewn cysylltiad ag addysg Gymraeg a chyfrwng Cymraeg ond nid wyf wedi cael trafodaethau am ardal Canol De Cymru yn benodol. Mae'r holl awdurdodau yn yr ardal honno'n cynnal ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg.